DATGANIAD I'R WASG

2 Mehefin 2007

GALW AM ADOLYGU DEDDF YR IAITH GYMRAEG

Mae Urdd Gobaith Cymru yn galw am adolygu Deddf yr Iaith Gymraeg.

Nod yr Urdd yw sicrhau y cyfle trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru i ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Er mwyn creu'r amgylchfyd gorau i'r mudiad allu cyflawni hyn, mae'n amserol, bedair mlynedd ar ddeg wedi'r Ddeddf Iaith ddiwethaf, i adolygu'r ddeddfwriaeth, ac i ystyried cyflwyno gwelliannau iddi i'w gwneud yn fwy perthnasol i Gymru heddiw.

Fel rhan o'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr uno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhai misoedd yn ôl, galwodd Urdd Gobaith Cymru am adolygiad o'r Ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r cysyniad o hawliau yn arbennig o berthnasol ym maes plant a phobl ifanc, ac mae'r Urdd am sicrhau'r hawl i bawb i dderbyn gwasanaeth ieuenctid, yn eu dewis iaith. Mae sicrhau gwell statws i'r Gymraeg yn y gweithle hefyd yn bwysig i blant a phobl ifanc yn enwedig y rheiny sydd yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gofio bod cefndir ieithyddol y disgyblion yn amrywiol.

Mae gwaith yr Urdd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol, ac yn datblygu eu sgiliau a'u hyder ieithyddol, yn unol ag amcan 'Iaith Pawb' o greu cymdeithas ddwyieithog.

Gan fod pwerau newydd bellach gan y Cynulliad, dylai aelodau'r cynulliad sicrhau'r amser a'r sylw angenrheidiol i drafod ac i arwain gwelliannau yn y maes hwn. Gwyddom fod gan Iwerddon drefniant sy'n cynnwys Comisiynydd Iaith, a chredwn y gallai hwn fod yn batrwm i'w ddilyn.

Mae hefyd yn amserol adolygu'r Ddeddf yng nghyd-destun y newidiadau sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn y maes cydraddoldeb, a'r posibilrwydd y bydd *Mesur Sengl Cydraddoldeb* newydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth San Steffan. Bryd hynny, bydd angen cymharu pwerau Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda'r pwerau a gynigir gan y Mesur Sengl ar gyfer y meysydd cydraddoldeb eraill.

Cynhaliwyd cyfarfod ar faes yr Eisteddfod ar ddydd Iau 31 Mai o fudiadau Cymraeg eraill sydd hefyd yn awyddus i rhoi cefnogaeth i ystyriaeth am adolygu'r Ddeddf Iaith, a bydd cyfarfod pellach yn digwydd ar 29 Mehefin. Byddai croeso i fudiadau eraill ymuno hefyd yn y trafodaethau i ystyried beth fyddai'r dulliau gorau i gyflawni'r amcan hwn.

urdd.org

Cyfarwyddwr Siân Eirian
Swyddfa'r Urdd
Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1EY
Ffôn 01970 613110
Ffacs 01970 626120
E-bost Sianeirian@urdd.org

Swyddfa Eisteddfod y De
Adran yr Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru
Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute
Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn 029 2063 5690
Ffacs 029 2063 5699
E-bost Irfon@urdd.org

Swyddfa Eisteddfod y Gogledd
Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Llanuwchllyn, Y Bala
Gwynedd LL23 7ST
Ffôn 01678 541012
Ffacs 01678 540514
E-bost Sheelagh@urdd.org

Create PDF with PDF4U. If you wish to remove this line, please click here to purchase the full version

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr yr Urdd,

“Mae gan yr Urdd draddodiad hir o arwain ym mywyd diwylliannol y genedl, ac o gyfrannu mewn ffordd eithriadol o gadarnhaol i sicrhau dyfodol i’r Iaith, a’n bwriad wrth wneud y cyhoeddiad hwn yw annog gwleidyddion Cymru i sicrhau’r amgylchiadau gorau i’r Gymraeg ffynnu.”

Diwedd

Am fwy o fanylion cysylltwch â Siân Eleri Davies ar 07976 330360

EISTEDDFOD YR URDD:

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw’r ŵyl gelfyddydol ieuenctid fwyaf yn Ewrop.
Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
Mae’r Eisteddfod yn denu dros 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
Mae’r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda’r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
Cynhelir Eisteddfod 2008 yng Nghonwy ac Eisteddfod 2009 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd.

Create PDF with PDF4U. If you wish to remove this line, please click here to purchase the full version